Taith arfordirol – 3¾ milltir

Trwyn Tyddewi

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

Fforiwch benrhyn arfordirol mwyaf ysblennydd Sir Benfro sawl milltir i ffwrdd oddi wrth ddinas leiaf Cymru, Tyddewi. Edrychwch allan ar forlun sy'n frith o ynysoedd gyda chefndir serth Carn Llidi, henebion cynhanesyddol ac amrywiaeth ffantastig o fywyd gwyllt arfordirol ar y daith gylchol arw yma.

Cychwyn: Maes parcio Traeth Whitesands - OS Landranger map157 - cyf. Grid SM734272

Sut i fynd yno a chyfleusterau lleol

Ar Lwybr Arfordirol Sir Benfro, 2 filltir i'r Gogledd Orllewin o Dyddewi, ar ddiwedd y B4583. Gwasanaeth bws gwennol rheolaidd y Celtic Coaster, o Dyddewi i Whitesands (Ebrill i Fedi). Amdaith hawdd oddi ar y Llwybr Celtaidd, Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 4, sy'n mynd heibio o fewn milltir i gychwyn y daith hon. Toiledau, lluniaeth a maes parcio (nid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn Nhraeth Whitesands, canolfan ymwelwyr a siop yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhyddewi. Cysylltwch â ni ar: 01437 720385

Pethau i'w gweld...

Golygfeydd arfordirol garw

Mae Trwyn Tyddewi wedi ei greu o graig folcanig hynafol iawn, peth ohono'n dyddio'n ôl bron i 500 miliwn o flynyddoedd! Yr hyn sy'n cynrychioli'r ddaeareg yma orau yw Carn Llidi, y brigiad danheddog tyrog neu'r twr, y byddwch yn cerdded o'i amgylch ar y daith hon, ac ynysoedd creigiog Ramsey, Bishops a Clerks sawl milltir allan i'r môr.

Gweddillion archeolegol

Mae i'r morlin hwn orffennol cynhanesyddol cyfoethog. Siambr gladdu Neolithig yw megalith Coetan Arthur sy'n dyddio o tua 4000CC. Hefyd mae yna weddillion patrymau caeau hynafol, tir caeedig a chloddiau amddiffynnol yma ac acw.

Rhostir arfordirol

Bydd grug ac eithin yn troi Trwyn Tyddewi'n biws ac aur llachar yn niwedd yr haf. Maent hefyd yn rhoi cartref i loÿnnod byw, gwyfynod a chwilod, yn ogystal ag adar fel crec penddu'r eithin a'r llinos.

Pennau clogwyni ac allan i'r môr

Mae amrywiaeth o adar yn bridio ar y clogwyni yma bob haf, o'r hebog tramor i'r gigfran, a'r wennol ddu i'r frân goesgoch. Alltraeth, fe allech fod yn ddigon lwcus i weld y llamhidydd neu'r dolffin yn chwarae yn y tonnau.

Mae gan Goetan Arthur faen capan anferth sydd bron yn chwe medr o led ac fe'i cynhelir gan garreg ochr sydd dros fedr o daldra. Mae bron yn sicr ei bod wedi ei hadeiladu fel hyn - gydag un pen yn gorffwys ar y ddaear – fel megalith sy'n sownd yn y ddaear. Mae'n dynwared siâp Carn Llidi y tu ôl iddi.

© NT / Marilyn Smyth

Mae hyd at 50 o ferlod Mynydd Cymreig yn pori ar Drwyn Tyddewi. Maent yn cadw'r llystyfiant yn agored ac yn cynnal yr amgylchiadau iawn i blanhigion rhostir arfordirol fel grug (a welir yma), eithin a'r Aurfanadl Blewog ffynnu.

© NT/Nature Conservation

Mae Trwyn Tyddewi tua 15 milltir o Grassholm, un o gynefinoedd mwyaf y byd i'r fulfran wen gyda 34,000 o barau bridio. Yn aml gallwch weld y mulfrain yn bwydo yn agos at Drwyn Tyddewi. Byddant yn plymio i'r môr am fecryll, gan wneud sblash anferth!

© NT/Nature Conservation

Llwybr a chyfarwyddiadau…

1. O faes parcio Whitesands, ewch drwy fwlch yn y wal wrth fynd heibio i ‘Safle Capel Sant Padrig’. Dringwch lethr tywodlyd i fyny i lwybr y clogwyn. Ar ôl tua hanner milltir fe gyrhaeddwch giât mochyn ac arwydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ewch yn eich blaen i ben y bryn.
2. Oddi yma fe welwch Goetan Arthur yn silwét yn erbyn yr awyr. Mae llwybr gwahanol yn anelu’n gymedrol i fyny y tu cefn i Garn Llidi gyda golygfeydd bendigedig i’r dwyrain. Gall y rhai anturus sgrialu i ben y copa hwn.
   Mae ein prif lwybr yn glynu at yr arfordir gan ddisgyn i’r dyffryn o’ch blaen i lawr grisiau llydan i ffynnon uwchben cildraeth bychan Porth Melgan.
3. Croeswch y nant dros bont a throwch i’r dde neu i’r Gogledd Ddwyrain i gerdded i fyny’r dyffryn hwn. Gall y rhannau yma fod yn llithrig ac yn fwdlyd yn y gaeaf.
4. I’r dde mae yna ardal gorsiog gyda’r siapiau wyau dinosor sy’n nodweddiadol o laswellt piws y rhostir, sy’n wyrdd yn yr haf ac yn lliw priddlyd yn y gaeaf. Yn uwch i fyny ar lethrau Carn Llidi, gallwch weld patrymau caeau hynafol.

   Cadwch lygad am adar fel crec penddu’r eithin, corhedydd y waun a’r ehedydd mewn clympiau o welyau cyrs a bedw. Hefyd fe welwyd y telor Dartford prin yma yn y blynyddoedd diwethaf.
5. Yn y pwynt uchaf yma daw copa Pen Beri ac ehangder Bae Ceredigion i’r golwg yn y pellter. Mae goleudy Strumble Head i’w weld dau benrhyn i ffwrdd gyda chopa Garn Fawr uwchlaw iddo. Disgynnwch i ailymuno â llwybr yr arfordir a throwch i’r chwith tuag at Drwyn Tyddewi.
6. Ar y llwyfandir mae creiglun hynod yn ymagor. Caiff y creigiau danheddog eu hailadrodd gan broffil garw Ynys Ramsey sydd allan i’r môr. I’r gogledd o Ramsey mae’r “Bishops and Clerks”, ynysoedd bychan gydag un ohonyn nhw’n gartref i oleudy mawr.
7. Yn y diwedd mae’r llwybr yn mynd heibio i Goetan Arthur ac yn disgyn i gaer arfordirol o’r Oes Haearn ar drwyn y penrhyn. Ewch yn eich blaen ar y llwybr arfordirol, gan ddychwelyd i Borth Melgan. Ail-droediwch eich llwybr oddi vma’n ôl i Draeth Whitesands.

Pellter y daith, tirwedd a hygyrchedd

Taith glir o 3¾ milltir ar lwybrau arfordirol garw, gyda rhai rhannau creigiog, llethrau a 70 o risiau. Beth am fforio ymhellach ar lwybrau bychan, toriadau tân a llwybrau anifeiliaid ar eich taith?



As a charity, independent of government, the National Trust relies on the generosity of its supporters to continue caring for our countryside and wildlife, so that everyone can enjoy the beauty of the outdoors for generations to come.

Find out more at www.nationaltrust.org.uk